



DYSGU TRAWSGWRICWLAIDD GYDA LLEOLIADAU DIWYLLIANNOL ABERTAWE

CANOLFAN DYLAN THOMAS



ORIEL GELF GLYNN VIVIAN



AMGUEDDFA ABERTAWE



ARCHIFAU GORLLEWIN
MORGANNWG

Arweinir gan artistiaid sy'n addysgwyr profiadol â gwybodaeth arbenigol

Ebrill 2018 – Mawrth 2019



Cyngor Abertawe
Swansea Council

Profiad Dysgu Trawsgwricwlaidd ar gyfer Ysgolion

4Site yw'r siop ddiwylliannol dan yr unto ar gyfer yr holl ysgolion yn Abertawe.

Edrychwch ar yr amrywiaeth cyffrous o waith ac arddangosfeydd yng **Nghanolfan Dylan Thomas**, **Oriel Gelf Glynn Vivian**, **Amgueddfa Abertawe**, ac **Archifau Gorllewin Morgannwg**.

Rydym yn argymhell eich bod yn darllen drwy'r pecyn hwn cyn eich ymweliad ac os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, cysylltwch â'r lleoliad priodol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth ymarferol y bydd ei hangen arnoch i drefnu sesiynau addysg ddiwylliannol eich ysgol ac elwa o'ch aelodaeth 4Site.

<p>Canolfan Dylan Thomas jo.furber@abertawe.gov.uk</p> <p><u>01792 463980</u></p>	<p>Oriel Gelf Glynn Vivian Elissa.Evans@abertawe.gov.uk</p> <p><u>01792 516900</u></p>
<p>Amgueddfa Abertawe phil.treseder@abertawe.gov.uk</p> <p>01792 653763</p>	<p>Archifau Gorllewin Morgannwg Katie.Millien@abertawe.gov.uk</p> <p>01792 636589</p>

CYNNWYS

- | | |
|--------------------------|------------|
| 1. Cyflwyniad | Tudalen 4 |
| 2. Lleoliadau | Tudalen 5 |
| - Map | |
| - Gwybodaeth | |
| 3. Ffioedd a Thaliadau | Tudalen 10 |
| - Sut i dalu | |
| 4. Sut i gadw lle | Tudalen 11 |
| - Ffurflenni Cadw Lle | |
| - Meintiau Grŵp | |
| 5. Trefnu eich ymweliad | Tudalen 15 |
| - Mynediad | |
| - Parcio | |
| - Adnoddau | |
| 6. Rhaglenni'r Sesiynau | Tudalen 19 |
| - Cyfnod Sylfaen | |
| - Cyfnod Allweddol 2 | |
| - Cyfnod Allweddol 2 + 3 | |
| - Cyfnod Allweddol 4 | |
| 7. Cefnogaeth Ariannu | Tudalen 28 |

*"Ymweliad addysgol gwych
@amgueddfaabertawe. Rydym
wedi mwynhau ein pwnc ar yr Aifft
Hynafol #Blwyddyn1a2"*

**Athro, Ysgol Gynradd Gatholig
San Helen**

*"Gwybodaeth ragorol am y Glynn
Vivian. Gweithdy rhyngweithiol ac
ymarferol ardderchog. Pob cyfle i
ddatblygu sgiliau celf y
disgyblion: braslunio, arsylwi,
datrys problemau, lluniadu."*

Athro, YGG Bryniago

1. CYFLWYNIAD

Rydym yn cynnig ffordd hwylus o fynd i [Ganolfan Dylan Thomas](#), [Oriol Gelf Glynn Vivian](#), [Amgueddfa Abertawe](#), ac [Archifau Gorllewin Morgannwg](#).

Arweinir sesiynau 4Site gan artistiaid sy'n addysgwyr a staff hyfforddedig eraill yr amgueddfa a'r archifau, gan gysylltu arddangosfeydd y casgliadau, yr arddangosiadau, yr archifau ac adnoddau eraill i themâu cyfnodau allweddol drwy amrywiaeth o ymagweddau creadigol a gweithdai.

Mae aelodaeth 4Site hefyd yn cynnwys mynediad i'r wybodaeth ariannu celfyddydau ddiweddaraf, newyddion rhwydwaith a gwahoddiad i ddigwyddiad DPP, gan sicrhau bod eich ysgol ar flaen y gad.

Beth am gyfuno gwibdaith eich dosbarth ag ymweliad â dau neu fwy o'n lleoliadau?

Byddwn yn falch o gynnig taith unigryw i chi ar draws y gwasanaeth, rhowch wybod i ni am yr hyn rydych yn dymuno ei wneud.

Mae ein holl leoliadau'n awyddus i'ch helpu i bennu eich trefniadau cinio neu drafod eich anghenion cludiant. Rhowch wybod i ni ymlaen llaw.

Rydym yn croesawu ysgolion gyda disgyblion ag anghenion arbennig, ac ysgolion o ochr ddwyreiniol y ddinas.

Pwy sy'n gallu ei ddefnyddio?

Mae **aelodaeth 4Site** ar gael i'r holl ysgolion a cholegau yn **Ninas a Sir Abertawe**. Gall ysgolion a cholegau y tu allan i'r ardal hon barhau i drefnu ymweliadau unigol, gweithdai a threfnu sesiynau hunanarweiniedig drwy 4Site.

Dylai ysgolion uwchradd gyda chyfleoedd cyfyngedig yn ystod y tymor ar gyfer ymweliadau gysylltu â ni i drafod trefnu ymweliad â'ch ysgol chi.

"Roeddwn wedi hoffi creu ein cerddi ein hunain! Roedd hynny'n wych oherwydd gwnaethoch i'n dychymyg grwydro! Rwy'n credu bod y lle hwn yn hudol!"

Disgybl, 9 oed, Ysgol Gynradd Dewi Sant, Abertawe

"Diolch yn fawr am ddod i'r ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau'r gwaith yn fawr ac wedi dysgu cymaint. Roedd fy nosbarth wedi defnyddio data'r cyfrifiad i ddatblygu llinellau amser ar gyfer pob tŷ. Mae'r plant mor frwdfrydig."

Athro, Ysgol Gynradd Penclawdd

2. LLEOLIADAU

Pellter cerdded rhwng lleoliadau:

Canolfan Dylan Thomas i'r Glynn Vivian	0.9km	oddeutu 20 munud
Canolfan Dylan Thomas i Amgueddfa Abertawe	0.3km	oddeutu 6 munud
Canolfan Dylan Thomas i Archifau Gorllewin Morgannwg	1.1km	oddeutu 24 munud
Glynn Vivian i Archifau Gorllewin Morgannwg	1.6km	oddeutu 35 munud



Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am barcio gerllaw yma:
www.abertawe.gov.uk/meysyddparciocanolyddinas

Canolfan Dylan Thomas

Beth am ysbrydoli eich disgyblion drwy ymweld â Chanolfan Dylan Thomas?

Mae arddangosfa barhaol Canolfan Dylan Thomas, 'Dwlu ar y Geiriau', yn adrodd stori bywyd, gwaith a chyd-destun diwylliannol un o awduron pwysicaf yr 20fed ganrif. Mae'n canolbwyntio ar ei blentyndod yn Abertawe a'r farddoniaeth a ysgrifennwyd ganddo yn ei arddegau, yn archwilio ei waith yn ystod y rhyfel a'i ysgrifennu am yr Ail Ryfel Byd, yn ogystal â'i gysylltiadau â'r Swrrealwyr ac awduron, artistiaid ac actorion y cyfarfu â nhw yn ystod ei amser yn America.

Mae llawysgrifau a recordiadau sain gwreiddiol yn rhan allweddol o'r arddangosfa hygyrch ac ymarferol hon. Mae'n cynnwys Llwybr i Blant ac amrywiaeth o bethau rhyngweithiol a gemau cyffrous, gan ei gwneud hi'n llawn hwyl i ddisgyblion o bob oedran ac anghenion dysgu.

Bydd ein tîm profiadol wrth law drwy gydol y diwrnod i sicrhau eich bod chi a'ch disgyblion yn gwneud yn fawr o'ch ymweliad. Mae ein tîm yn cynnig ymweliadau tywys a gweithdai i ysbrydoli disgyblion o bob oedran, sydd am ddim i aelodau 4Site.

Yn ogystal, rydym yn gweithio gydag awduron gwych i ddarparu gweithdai ysbrydolus sy'n eich cynnwys yn llawn. Mae ein harddangosfeydd, ein llwybrau a'n taflenni gwaith yn ddwyieithog, a gellir cyflwyno gweithdai â thema ac ymweliadau tywys yn Gymraeg. Mae ein hardaloedd arddangos a'n man dysgu ar y llawr gwaelod ac yn gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn.

DYDD LLUN	10:00 – 16:30
DYDD MAWRTH	10:00 – 16:30
DYDD MERCHER	10:00 – 16:30
DYDD IAU	10:00 – 16:30
DYDD GWENER	10:00 - 16:30

Gwefan: www.dylanthomas.com
Twitter: [@CDTAbertawe](https://twitter.com/CDTAbertawe)
Facebook: [Facebook.com/DylanThomasCentre](https://www.facebook.com/DylanThomasCentre)

Oriel Gelf Glynn Vivian

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian, mewn adeilad rhestredig Gradd II* hanesyddol, ar flaen y gad wrth ddarparu rhagoriaeth gyson yng Nghymru o ran ei dysgu, ei chyfranogiad a'i rhaglenni cynnwys ac mae wedi cael ei chydabod am ei hymagwedd arobryn o safon at ddysgu. Erys dysgu drwy gyfranogiad a chynnwys yn ganolog i'n gwaith.

Ysbrydolir ein rhaglen ddysgu gan chwilfrydedd artistiaid, a'n sefydlydd, Richard Glynn Vivian, drwy ei deithiau o amgylch y byd yn casglu celf, ei frwdfrydedd am wybodaeth a diwylliant, a'r gred y gall celf newid bywydau.

Fe'i sefydlwyd ym 1911 drwy gymynrodd wreiddiol Richard Glynn Vivian (1835-1910), ac mae'r oriel yn gartref i gasgliad nodedig o gelf gyfoes a hanesyddol o'r 20fed ganrif, ynghyd â'n rhaglen arddangos dros dro newidiol, sy'n cynnig cyfleoedd newydd i archwilio, ac ymatebion creadigol drwy gydol y flwyddyn.

Mae ein Tîm Dysgu profiadol yn cynnig profiadau creadigol unigryw a fydd yn rhoi cyfle ar gyfer Datblygu Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen a Dealltwriaeth, Ymchwilio a Gwneud yng Nghyfnod Allweddol 2.

Rydym hefyd yn gallu bodloni rhai o ofynion y Cwricwlwm Cymreig mewn ymweliad gweithdy drwy wella dealltwriaeth o waith artistiaid o Gymru lle y bo'n briodol.

DYDD LLUN	AR GAU
DYDD MAWRTH	10:00 - 17:00
DYDD Mercher	10:00 - 17:00
DYDD IAU	10:00 - 17:00
DYDD GWENER	10:00 - 17:00

Gwefan:	<u>www.glynnviviangallery.org</u>
Twitter:	<u>@OG_GlynnVivian</u>
Instagram:	<u>@glynnvivian</u>
Facebook:	<u>www.facebook.com/glynnvivian</u>

Amgueddfa Abertawe

Amgueddfa Abertawe yw'r amgueddfa hynaf yng Nghymru, ac yn drysordy diddorol o hanes Abertawe. Mae'r casgliadau'n cynnwys pob math o wrthrychau o orffennol Abertawe, Cymru a gweddill y byd.

Ym mhrif adeilad yr amgueddfa, mae gennym bopeth o [fymi Eifftaidd](#) i gegin Gymreig wedi'u harddangos mewn chwe oriel. Ceir llawer o [arddangosfeydd](#) dros dro hefyd bob blwyddyn.

Gallwch ymweld ag Amgueddfa Abertawe mewn dau lleoliad - yr Amgueddfa ei hun ar Heol Ystumllwynarth, a'r [Sied Dramiau](#) yn Sgwâr Dylan Thomas yn y Marina.

DYDD LLUN	AR GAU
DYDD MAWRTH	10:00 - 16:30
DYDD MERCHER	10:00 - 16:30
DYDD IAU	10:00 - 16:30
DYDD GWENER	10:00 - 16:30

Gwefan: www.swanseamuseum.co.uk
Twitter: [@AmgueddfaTawe](https://twitter.com/AmgueddfaTawe)
Facebook: www.facebook.com/swanseamuseum

Archifau Gorllewin Morgannwg

Mae archifau'n adnodd addysgol gwych sy'n cynnig profiad ymarferol i fyfyrwyr ac athrawon gyda ffynonellau cynradd unigryw. Gallant ennyn dychymyg y disgyblion oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth leol sy'n berthnasol i'r plant. Rhowch y profiad o ddefnyddio ffynonellau uniongyrchol i ddisgyblion, gadewch iddynt chwilio am wybodaeth sydd ar gael mewn fformatau diddorol ac anarferol, a gadewch iddynt gynnal eu hymchwil eu hunain a gwerthuso'r adnoddau.

Gwahoddir disgyblion ac athrawon i ymweld â'r archifau yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe.

Fel arall, gallwn gynnig yr un sesiynau yn eich ysgol, gan ddefnyddio dogfennau ffacsimili.

DYDD LLUN **10:00 - 15:00**
Ar y safle neu yn eich ysgol

Gwefan: **www.abertawe.gov.uk/archifau**
Twitter: **[@ArchifGorllMor](https://twitter.com/ArchifGorllMor)**

3. FFŪOEDD A THALIADAU

Mae'r ffioedd a'r taliadau a restrir isod o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019.

Gallwch ddod yn aelod blynyddol o 4Site o fis Ebrill 2018, neu gallech ymuno ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond byddai eich aelodaeth yn dal i ddod i ben ym mis Mawrth 2019.

Aelodaeth flynyddol 4Site yw'r pecyn gwerth gorau sydd ar gael. Serch hynny, os hoffech gael mwy o hyblygrwydd gallwch drefnu sesiynau unigol ar gyfer eich ysgol.

Efallai ceir costau ychwanegol ar gyfer sesiynau unigol wrth archebu mwy o adnoddau dysgu, neu pan fydd pobl ar eu liwt eu hunain (e.e. awduron proffesiynol) yn cael eu cyflogi i gyflwyno'r sesiwn. Trafodir hyn â chi ar adeg cadw lle.

YSGOLION Y TU MEWN I ARDAL AWDURDOD LLEOL ABERTAWE

Aelodaeth Flynyddol 4Site:

Aelodaeth 1-flwyddyn (Ebrill-Mawrth) am **£200**

Mae'r aelodaeth yn cynnwys **5 sesiwn** ar gyfer unrhyw un o'r pedwar lleoliad.

Sesiynau Unigol:

Canolfan Dylan Thomas o £50

Oriel Gelf Glynn Vivian o £50

Amgueddfa Abertawe o £50

Archifau Gorllewin Morgannwg Sesiynau yn eich ysgol **£50**
Sesiynau yn yr archifau am ddim

YSGOLION Y TU ALLAN I ARDAL AWDURDOD LLEOL ABERTAWE

Sesiynau Unigol:

Canolfan Dylan Thomas o £60

Oriel Gelf Glynn Vivian o £60

Amgueddfa Abertawe o £60

Archifau Gorllewin Morgannwg Sesiynau yn eich ysgol (Castell-nedd Port Talbot) **£50**
Sesiynau yn yr archifau am ddim

Sut i dalu

Gallwn dderbyn taliad drwy anfoneb neu siec.

I dalu am eich aelodaeth 4Site, e-bostiwch **Barry Hughes** yn Amgueddfa Abertawe yn Barry.Hughes@swansea.gov.uk

I dalu am ymweliadau unigol, cysylltwch â'r lleoliad priodol.

4. SUT I GADW LLE

Mae aelodaeth 4Site ar gael i'r holl ysgolion a cholegau yn awdurdod lleol Abertawe. Gall ysgolion a cholegau y tu allan i'r ardal hon drefnu sesiynau unigol.

Rhowch wybod i ni wrth gadw lle os oes angen unrhyw gyfleusterau eraill arnoch neu os oes gennych ofynion ychwanegol fel rhan o'ch ymweliad, a byddwn yn ceisio diwallu eich anghenion.

Cofrestru i fod yn aelod 4Site

E-bostiwch **Barry Hughes** Barry.Hughes@swansea.gov.uk gyda'r wybodaeth ganlynol/ffurflen aelodaeth wedi'i chwblhau.

FFURFLEN AELODAETH 4SITE

Cwblhewch y ffurflen hon a'i hanfon at:

Barry.hughes@swansea.gov.uk

FAO Phil Treseder
Aelodaeth 4Site,
Amgueddfa Abertawe,
Heol Victoria,
Abertawe SA1 1SN

Byddwch yn derbyn eich rhif aelodaeth 4Site ar ôl i'ch taliad gael ei brosesu.

Enw'r ysgol	
Cyfeiriad yr ysgol	
Côd post yr ysgol	
Enw cyswllt	
E-bost cyswllt	
Rhif cyswllt	
Enw cyswllt ar gyfer cyllid	
E-bost cyswllt ar gyfer cyllid	
Cyfeiriad bilio (os yw'n wahanol i'r uchod)	
Rhif yr archeb brynu (os yw'n briodol)	
Côd cyllideb yr ysgol (os yw'n briodol)	

Trefnu Sesiynau Unigol

Mae gennym gyswllt dynodedig ym mhob lleoliad ar gyfer eich ymweliad, sy'n gallu cynghori am unrhyw ofynion penodol sydd gennych ynghylch eich disgyblion. Cwblhewch y ffurflen cadw lle isod a'i hanfon at y cyswllt priodol **bythefnos ymlaen llaw**.

Rydym yn deall y gall gymryd amser i drefnu manylion eich ymweliad (cludiant, staff cyflenwi etc). Felly, rydych yn gallu trefnu amser dros dro a fydd yn cael ei gadw am **saith niwrnod o'r adeg cadw lle**. Os ar ôl y cyfnod hwn nad ydych yn gallu cadarnhau'r amser hwn, caiff ei roi i ysgol arall.

Canolfan Dylan Thomas
Oriel Gelf Glynn Vivian
 Amgueddfa Abertawe
 Archifau Gorllewin Morgannwg

Jo.Furber@swansea.gov.uk
Elissa.Evans@swansea.gov.uk
Phil.Treseder@swansea.gov.uk
Katie.Millien@swansea.gov.uk

Meintiau Grŵp

Mae'r sesiynau ar gyfer uchafswm o **35 o fyfyrwyr**.

Gwnewch yn siŵr fod gan eich grŵp y gymhareb oedolion i blant ganlynol:

- 1:5 ar gyfer plant dan 5 oed
- 1:10 ar gyfer plant 6 i 11 oed
- 1:15 ar gyfer pobl ifanc 12 i 16 oed
- 1:20 ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed

Sylwer mai athrawon sy'n gyfrifol am ymddygiad a diogelwch myfyrwyr ar bob adeg. Dylai pob arweinydd grŵp gynnal asesiad risg cyn eu hymweliad.

FFURFLEN CADW LLE AR GYFER YMWELIAD ADDYSGOL

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r cyfeiriad e-bost addas a restrir isod.

Oes gan eich ysgol Aelodaeth 4Site ar gyfer y flwyddyn ariannol hon eisoes?		Oes	Nac oes
Os 'oes' Beth yw eich rhif aelodaeth 4Site?			
Os 'nac oes', cwblhewch yr adrannau canlynol:	Rhif Cyswllt Cyllid/Gweinyddol		
	E-bost		
	Cyfeiriad Bilio (os yn wahanol)		
	A fyddwch yn darparu Archeb Brynu?		

Pa leoliad ydych chi'n cadw lle ar ei gyfer?	Canolfan Dylan Thomas	Jo.Furber@swansea.gov.uk	
	Oriel Gelf Glynn Vivian	Elissa.Evans@swansea.gov.uk	
	Amgueddfa Abertawe	Phil.Treseder@swansea.gov.uk	
	Archifau Gorllewin Morgannwg	Katie.Millien@swansea.gov.uk	

Enw'r ysgol	
Cyfeiriad yr ysgol Côd Post	
Enw cyswllt	
E-bost cyswllt	
Rhif cyswllt	

Grŵp blwyddyn a chyfnod(au) allweddol		
Nifer y myfyrwyr		
Enw Athro/Arweinydd y Grŵp		
Dyddiad(au) a ffefrir ar gyfer eich ymweliad		
Y Gymraeg neu'r Saesneg (yn amodol ar argaeledd)		
A oes angen yr ardal ddysgu arnoch ar gyfer cinio?	Oes	Nac oes
Unrhyw ofynion ychwanegol:		

5. TREFNU EICH YMWELIAD

Mae'r wybodaeth ganlynol yn drosolwg i'ch helpu i wneud yn fawr o ymweliad eich ysgol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r aelod priodol o staff. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gwybod pwy dylech gysylltu ag ef, byddwn yn trosglwyddo'r neges i'r person cywir a bydd yn ymateb cyn gynted â phosib.

Mynediad

Mae pob lleoliad 4Site yn hygyrch i bawb ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi a'ch ysgol.

Canolfan Dylan Thomas

Mae'r brif fynedfa, y dderbynfa, yr ardaloedd arddangos a dysgu i gyd heb risiau ac yn gwbl hygyrch.

Glynn Vivian

Nid oes grisiau yn y brif fynedfa na'r dderbynfa ac maent yn gwbl hygyrch. Mae lefelau gwahanol yr oriel yn gwbl hygyrch drwy ddefnyddio'r lifft o'r dderbynfa.

Am wybodaeth gyswllt fwy manwl [cliciwch yma](#)

Amgueddfa Abertawe

Ceir grisiau sy'n arwain at y brif fynedfa a'r dderbynfa. Nid oes grisiau wrth fynd drwy'r ardd a'r fynedfa ar yr ochr.

Mae lefelau gwahanol yr amgueddfa'n gwbl hygyrch drwy ddefnyddio'r lifft o'r dderbynfa.

Archifau Gorllewin Morgannwg

Nid oes grisiau'n arwain at brif fynedfa'r Ganolfan Ddinesig, er bod ramp bach i fyny tuag at flaen yr adeilad.

Mae mynedfa'r gogledd yn cynnig mynediad gwastad i'r llawr isaf gyda lifft i'r llawr gwaelod.

Am wybodaeth gyswllt fwy manwl [cliciwch yma](#)

Parcio

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am parcio gerllaw yma:

www.abertawe.gov.uk/meysyddparciocanolyddinas

Canolfan Dylan Thomas

Y man casglu a gollwng agosaf ar gyfer coetsis:

O flaen Canolfan Dylan Thomas yn Somerset Place SA1 1RR

Parc Coetsis agosaf:

1. Heol East Burrows (gyferbyn â Chanolfan Dylan Thomas) SA1 1RR
2. Maes parcio'r LC2 SA1 3ST

Meysydd parcio agosaf:

1. Heol East Burrows (gyferbyn â Chanolfan Dylan Thomas) SA1 1RR

Glynn Vivian

Y man casglu a gollwng agosaf ar gyfer coetsis:

Y tu allan i'r Glynn Vivian ar Heol Alexandra SA1 5DZ

Parc Coetsis agosaf:

1. Heol East Burrows (gyferbyn â Chanolfan Dylan Thomas) SA1 1RR

Meysydd parcio agosaf:

1. Y Stryd Fawr (drws nesaf i Orsaf Drenau Abertawe) SA1 5BA
2. Maes Parcio Stryd y Berllan (NCP) SA1 5AS

Amgueddfa Abertawe

Y man casglu a gollwng agosaf ar gyfer coetsis:

1. Y tu allan i Amgueddfa Abertawe SA1 1SN

Parc Coetsis agosaf:

1. Y tu allan i Amgueddfa Abertawe SA1 1SN
2. Heol East Burrows (gyferbyn â Chanolfan Dylan Thomas) SA1 1RR

Meysydd parcio agosaf:

1. Heol East Burrows (gyferbyn â Chanolfan Dylan Thomas) SA1 1RR

Archifau Gorllewin Morgannwg

Y man casglu a gollwng agosaf ar gyfer coetsis:

1. O flaen Canolfan Ddinesig Abertawe SA1 3S

Parc Coetsis agosaf:

1. Maes parcio'r LC2 SA1 3ST

Meysydd parcio agosaf:

1. Canolfan Ddinesig Abertawe SA1 3SN

Adnoddau

Canolfan Dylan Thomas

Mae gennym amrywiaeth eang o lyfrau, recordiadau a DVDs sy'n ymwneud â Dylan Thomas; cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Glynn Vivian

Rydym yn creu adnoddau ar gyfer ein holl arddangosiadau cyfoes sydd ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â'n harweiniad amlgyfrwng am ddim i'r Glynn Vivian yn yr App Store a Google Play. Mae'r arweiniad amlgyfrwng yn rhoi cipolwg ar arddangosfeydd cymynrodd wreiddiol Richard Glynn Vivian, gan gynnwys gwrthrychau, artistiaid a hanes yr oriel.

Amgueddfa Abertawe

Prisiau mewn cromfachau ar gyfer aelodau 4Site.

Adnoddau fideo:

- | | |
|---|-------|
| 1. Swansea and The Three Nights' Blitz | £8.95 |
| 2. Swansea and World War Two – The People's Story | £8.99 |

Cyhoeddiadau:

- | | |
|--------------------------------------|---------------|
| 1. Mr Dillwyn's Diary | £7.95 (£7.15) |
| 2. Swansea and the War...60 years on | £8 |

Adnoddau'n seiliedig ar ddelweddau:

- | | |
|--|---------------|
| 1. Eight Images of Coal Mining | £7.50 (£6.75) |
| 2. John Dillwyn Llewellyn, pioneer photographer | £7.95 (£7.15) |
| 3. Ships & Industry | £6 |
| 4. Toys | £9.95 |
| 5. Swansea Before Industry I
the Town and its Surroundings | £6.95 (£6.25) |
| 6. Swansea Before Industry II
Farming, Trading & Crafts | £7.95 (£7.15) |
| 7. Swansea Castle by Bernard Morris | £7.95 (£7.15) |
| 8. The Work of the Cambrian and Glamorgan Potteries
1764 – 1870 | £2.50 |

Archifau Gorllewin Morgannwg

Gellir addasu **Pecynnau Adnoddau Astudiaeth Leol** ar gyfer eich ysgol chi.

Bydd pob sesiwn yn cynnwys yr holl ddogfennau canlynol neu rai ohonynt: mapiau, cyfrifiadau, cyfeirlyfrau masnach, cofnodion plwyfi, papurau newydd, cofnodion ysgolion a ffotograffau.

Cost Pecynnau Adnoddau Astudiaeth Leol yw **£30.00** a dylech eu harchebu **un tymor** ymlaen llaw.

Y Banc Lluniau

Bydd pob ysgol fabanod a chynradd yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi derbyn CD adnoddau Cyfnod Sylfaen **am ddim** ym mis Mawrth 2013.

Mae CDs Adnoddau Cyfnod Sylfaen newydd bellach yn costio **£10.00**
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Katie ar 01792 636589

6. RHAGLENNI'R SESIWN

Mae'r arddangosfeydd a'r arddangosiadau'n newid ym mhob un o leoliadau 4Site, rhai'n amlach nag eraill. Mae sesiynau addysgol yn uniongyrchol gysylltiedig â rhaglen gyhoeddus pob lleoliad, serch hynny os oes pwnc penodol yr hoffech i ni gynnwys yn eich sesiwn, gallwch drafod hyn â'r cyswllt priodol.

Edrychwch ar yr amrywiaeth cyffrous o waith ac arddangosfeydd sydd ar y gweill yn y manau canlynol:

Canolfan Dylan Thomas
www.dylanthomas.com

Oriel Gelf Glynn Vivian
www.glynnviviangallery.org

Amgueddfa Abertawe
www.swanseamuseum.co.uk

Archifau Gorllewin Morgannwg
<https://www.abertawe.gov.uk/archifaugorllewinmorgannwg>

Cyfnod Sylfaen

Canolfan Dylan Thomas Ymweliadau Tywys y Cyfnod Sylfaen

30 mun – 1 awr

Mae ein hymweliadau tywys ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion eich dosbarth.

Bydd un o'n tîm wrth law i'ch croesawu chi i'r ganolfan ac esbonio rhannau amrywiol ein harddangosfa. Wrth i chi deithio drwy fyd Dylan, cewch ganfod hanes yr anifeiliaid yng ngherddi Dylan, yr hyn a'i hysbrydolodd i ysgrifennu ei straeon a rhai o'r pethau doniol y gwnaeth Dylan yn yr ysgol.

Bydd eich ymweliad yn cynnwys llwybrau am ddim.

Darganfod Llwybr Anifeiliaid Dylan

2+ oed

Llwybr Croesair Anifeiliaid Dylan

6+ oed

Gall plant fynd â'u llwybr gorffenedig i'r ddesg flaen i gael sticer a llyfrnod.

Canolfan Dylan Thomas Ymweliadau Tywys y Cyfnod Sylfaen gyda gweithgareddau hunanarweiniedig 1 i 2 awr

Yn ogystal â'r ymweliadau tywys a'r llwybrau, bydd gennych fynediad i weithgareddau a chwarae hunanarweiniedig am ddim â thema. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: dillad gwisgo i fyny, bwrdd creu stori gyda ffelt, pypedau glan môr traddodiadol, pypedau anifeiliaid Dylan, gemau creu stori, cornel ddarllen, y cyfan wedi'i ysbrydoli gan fywyd a gwaith Dylan Thomas.

Cysylltwch â ni am fwy o fanylion ac er mwyn teilwra eich profiad.

Canolfan Dylan Thomas Gweithdai'r Cyfnod Sylfaen

30 mun – 1 awr

Dewiswch o blith un o'r gweithdai canlynol:

- Holti ac aildrefnu cerddi
- Dis stori
- Creu Llyfr Stori bach

Cysylltwch â ni am fanylion pellach pob gweithdy.

Oriel Gelf Glynn Vivian Teithiau Tywys a Gweithgareddau

1 awr

Ystod oedran a awgrymir Blwyddyn 1+

Dewiswch o blith y canlynol

Dewch i archwilio arddangosfa Richard Glynn Vivian a dysgu am hanes sefydlydd yr oriel, ei gasgliad a'r straeon sy'n gefndir i'r gweithiau celf.

Neu

Dewch i ymweld â'n harddangosfa gyfoes ac archwilio'r deunyddiau, y syniadau a'r themâu yng ngwaith yr artistiaid.

Oriel Gelf Glynn Vivian Gweithdai'r Cyfnod Sylfaen

1 i 2 awr

Ystod oedran a awgrymir: Derbyn – Blwyddyn 2

Thema ein gweithdai ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yw arddangosfeydd ein casgliad a'n rhaglen o arddangosfeydd cyfoes. Mae pob gweithdy'n cwmpasu taith dywys o'r oriel, lle byddwn yn esbonio sut i lywio a defnyddio orielau, a chanolbwyntio ar y gwaith celf drwy ddarlunio a thrafod. Yna rydym yn cynnig gweithgaredd creadigol yn ein hystafell ddysgu ddynodedig i archwilio deunyddiau a thechnegau sy'n gysylltiedig â'r hyn rydym wedi'i weld.

Dewiswch o'r canlynol

- Darlunio
- Paentio

Ewch i'r [wefan](#) i gael mwy o wybodaeth am ein harddangosfeydd presennol.

Amgueddfa Abertawe Gweithdy'r Cyfnod Sylfaen: BANT Â NI I LAN Y MÔR

1 awr

Grŵp oed a argymhellir: Derbyn – Blwyddyn 2

Bu hon yn un o'n sesiynau mwyaf poblogaidd dros y blynyddoedd diweddar.

Bydd y plant yn eistedd mewn tram ac yn cwrdd â menyw o tua 1900, a fydd yn canu caneuon ac yn adrodd straeon wrthynt am fynd i lan y môr, a sut roedd pobl yn cyrraedd yno, yn enwedig ar drên y Mwmbwls. Bydd cyfle i greu stori eu hunain ac ymchwilio i "fagiau gwrthrychau" sy'n cynnwys deunyddiau sy'n ymwneud â'r traeth, mynd ar gerbyd tram y Mwmbwls, edrych ar y lluniau sy'n cael eu harddangos a thynnu lluniau.

Amgueddfa Abertawe Gweithdy'r Cyfnod Sylfaen: TEGANAU

1 awr

Grŵp oed a argymhellir: Derbyn – Blwyddyn 2

Dyma sesiwn a ddysgir am awr sy'n cynnwys hen deganau. Byddwn yn astudio doliau, teganau clocwaith, teganau tunplat lliwgar, blychau cynilo, teganau pren, topiau troi a gemau awyr agored. Archwilir themâu megis newid mewn deunyddiau, pŵer ac addurniadau. Llauer o hwyl wrth ddysgu am hen deganau. Os hoffech y cyfle i arlunio ar ôl y sesiwn, rhowch wybod i mi.

Mae pecyn teganau ar gael i gyd-fynd â'r ymweliad am £9.95.

Amgueddfa Abertawe Gweithdy'r Cyfnod Sylfaen: TRYDAN A CHYN HYNNY

1 awr

Grŵp oed a argymhellir: Derbyn – Blwyddyn 2

Sesiwn sy'n astudio cartrefi a bywyd pob dydd a'r newidiadau yn y rhain dros y 150 o flynyddoedd diwethaf.

Sesiwn actif a ddysgir gan ddefnyddio llawer o wrthrychau trin a thrafod o heddiw a'r gorffennol gan astudio'r gwahaniaethau. Dangosir y newidiadau mewn bywyd pob dydd drwy archwilio teclynnau cyrlio gwallt, golch, haearnau, goleuadau ac arteffactau glanhau.

Dewch i weld 'Llusern Hud' ar waith!

Os hoffech amser i fraslunio ac arlunio ar ôl sesiwn neu le i gael cinio, gofynnwch wrth gadw lle.

Amgueddfa Abertawe

Gweithdy'r Cyfnod Sylfaen: MRS MAHONEY

1 awr

Grŵp oed a argymhellir: Derbyn – Blwyddyn 2

Mrs Mahoney oedd gwraig gofawlwr yr amgueddfa yn y 1850au, a ddiswyddwyd am ddwyn arian. Bu'r teulu Mahoney'n byw yn yr amgueddfa ac roedd yn rhaid iddynt adael eu cartref.

Bydd eich dosbarth yn cwrdd â Mrs Mahoney a fydd yn rhannu ei stori drist drwy wisg a chymeriad. Caiff y stori ei hadrodd drwy sawl gwrthwyb. Bydd y plant yn gweld y gist llawn pethau mae'n mynd â nhw gyda hi sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng ei ffordd hi o fyw a'u rhai nhw.

Archifau Gorllewin Morgannwg

Gweithdai'r Cyfnod Sylfaen: BANC LLUNIAU

2 awr

Mae'r Gwasanaeth Archifau wedi llunio cronfa ddelweddau o hen ffotograffau lleol. Gall athrawon weld y rhain a'u lawrlwytho i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adnodd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac wedi'i seilio ar y pynciau canlynol:

- Tai a chartrefi
- Cludiant a Theithiau
- Swyddi a Gweithleoedd
- Gwyliau a Dathliadau

Mae pob adnodd ar thema hefyd yn cynnwys nodiadau athrawon, amserlenni a syniadau am weithgareddau yn ogystal â disgrifiad o'r ddelwedd.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Amrediad - Amser a Phobl

- Rhoi digwyddiadau mewn dilyniant
- Dechrau nodi gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw ar adegau gwahanol
- Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau hanesyddol, sy'n canolbwyntio ar luniau

Amrediad - Pobl a Lleoedd

- Dysgu lle mae eu hardal leol
- Dechrau adnabod gwahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru
- Ymchwilio i sut mae lleoedd yn newid

Cyfnod Allweddol 2

Canolfan Dylan Thomas Ymweliadau Tywys CA2

45 mun – 1 awr

Dewch i ddarganfod pam cafodd awduron fel Roald Dahl eu hysbrydoli gan waith Dylan, yr hyn wnaeth Dylan yn ystod yr Ail Ryfel Byd a pha atgofion plentyndod a ysbrydolodd Dylan i greu rhai o'i straeon enwocaf. Bydd un o'r tîm wrth law i'ch croesawu i'r ganolfan ac esbonio rhannau amrywiol ein harddangosfa. Bydd eich ymweliad yn cynnwys taflenni llwybrau a gweithgareddau am ddim.

Canolfan Dylan Thomas Gweithdai CA2

1 awr i 1 awr a hanner

Dewiswch o blith un o'r gweithdai canlynol:

- Rhyfel Dylan
- Geiriau Dylan: Hollti ac aildrefnu cerddi
- Gweithdy Dis Stori
- Nodiaduron Dylan

Cysylltwch â ni am fanylion pellach pob gweithdy.

Oriel Gelf Glynn Vivian Gweithdai CA2

Ar gyfer ein gweithdai Cyfnod Allweddol 2, dewiswch un o'r tair thema;

- Richard Glynn Vivian, sefydlydd yr oriel
- Portreadaeth
- Natur

Neu dewiswch archwilio ein Harddangosfa Gyfoes gyfredol; gweler ein [gwefan](#) am fwy o wybodaeth.

Mae'r gweithdai'n seiliedig ar daith dywys o amgylch yr oriel, lle byddwn yn canolbwyntio ar y gweithiau celf drwy ddarlunio, trafod a myfyrio. Yna rydym yn cynnig gweithgaredd creadigol estynedig sy'n ymwneud â'r thema a ddewiswyd yn ein hystafell ddysgu ddynodedig.

Dewiswch o'r canlynol

- Darlunio
- Paentio
- Gwneud Printiau

Amgueddfa Abertawe Gweithdy CA2+3 RHEILFFORDD Y MWMBWLS

Hanner Diwrnod (10:00- 12:00/12:30-14:30)

Grŵp oedran a argymhellir: Blwyddyn 3 ac yn hŷn

Mae gan y sied dramiau dram stryd a chab trŷn y Mwmbwls (y ddau'n drydanol) a thram replica a dynnwyd gan geffylau o 1807, ynghyd ag arddangosfeydd o drŷn y Mwmbwls (ynghyd â fideo), tramiau Abertawe a thramffordd Bryn Constitution o 1898. Ar gyfer thema gludiant, mae hyn yn dangos, er enghraifft, y newid o geffylau i

ager ac yna drydan, ac yn olaf o'r rheilffordd i'r ffordd. Mae sgwrs sioe sleidiau, taflenni gwaith (DVD hefyd am £8.99) hefyd yn bosib - cysylltwch â'r amgueddfa am fanylion.

Amgueddfa Abertawe

Gweithdy CA2 + 3 ABERTAWE YN Y RHYFEL

Diwrnod Llawn (10:00-14:00)

Grŵp oedran a argymhellir: Blwyddyn 5+6

Gweithio gyda llawer o wrthrychau o'r Ail Ryfel Byd, paentiadau o ganol y dref o adeg y rhyfel gan Wil Evans, Cysgodfan Anderson replica, posteri a ffotograffau. Ceir sgwrs sleidiau sy'n trafod sawl thema ryfel, gan archwilio sut cafodd Abertawe ei bomio ac effaith yr ymosodiadau ar ganol yr hen dref a'r bobl. Os oes angen, gall eich grŵp gwrdd â rhywun fu'n byw yn Abertawe yn ystod y rhyfel. Os hoffech ddewis yr opsiwn hwn, nodwch hynny wrth gadw lle.

Amgueddfa Abertawe

Gweithdy CA2+3 YR AIFFT HYNAFOL

Hanner Diwrnod (10:00-12:00/12:30-14:30)

Grŵp blwyddyn a awgrymir: Blynnyddoedd 3 / 4

Mae gan Amgueddfa Abertawe fymi 2,200 oed sydd i'w weld. Mae gennym hefyd lawer o ddarnau o grochenwaith a gwydr Eifftaidd, drych ymbincio hynafol a hyd yn oed hwyaden fymiedig!

Cyfunwch eich ymweliad â thaith i'r Ganolfan Eifftaidd ym Mhrifysgol Abertawe am ddiwrnod llawn gwych. Ceir gwaith oriel a sioe sleidiau. Os ydych yn bwriadu ymweld â'r Ganolfan Eifftaidd, efallai y bydd gennym le i'ch grŵp gael cinio. Rhowch wybod i ni os ydych am wneud hyn wrth gadw lle.

Amgueddfa Abertawe

Gweithdy CA2+3: Y RHUFEINIAID... A RHAI CELTIAID

Hanner Diwrnod (10:00- 12.00/12.30-14.30)

Grŵp blwyddyn a argymhellir: BI 3 / 4 / 5

Diwrnod llawn gyda llawer o weithgareddau gan gynnwys y cyfle i wisgo gwisgoedd, tarianau replica Rhufeinig a Cheltaidd yn ogystal ag arfwisgoedd. Llauer o hwyl ymarferol!

Gall grwpiau sy'n ymweld gwrdd â chymeriad Rhufeinig a chlywed am ei fywyd a sut newidiodd ym Mhrydain y Rhufeiniaid a'r Celtiaid. Bydd gan y plant gyfle i ganfod lle daethpwyd o hyd i rai gwrthrychau Rhufeinig a chael golwg arnynt yn yr Oriol Archaeoleg. Ar ddiwedd y dydd, bydd sioe sleidiau a fydd yn cyfuno elfennau a themâu'r dydd.

Amgueddfa Abertawe

Gweithdy CA 2+3: ALICE FRANCIS

Hanner Diwrnod

Grŵp oedran a awgrymir: Blynnyddoedd 5 - 6

Person go iawn oedd Alice Francis, yn byw yn Abertawe Fictoriaidd, ac a'i chofnodwyd ar gyfrifiad 1851. Byddai wedi byw yn ystod cyfnod llawer o newidiadau yn y 19ain ganrif yn Abertawe. Bu'n byw ar Lôn Morris. Rydym wedi ffugio mai hi yw'r fenyw yn y paentiadau sydd gennym yn yr amgueddfa gan William Butler, 1850-1, sy'n dangos Lôn Morris a Lôn y Castell gerllaw.

Cyfle i'ch dosbarth gwrdd ag Alice. Yn gyntaf mewn gwisg a chymeriad, yna bydd y plant yn cwrdd â Val Williams (sy'n perfformio rôl Alice) ac yn dod o hyd i sut y bu'n ymchwilio i'r rôl. Bydd y disgyblion yn archwilio ffynonellau - trin gwrthrychau, paentiadau, ffotograffau etc. yn yr orielau, allan o'r casys etc. Dyma ffordd wych o astudio Fictoriaid a newidiadau mewn bywyd pob dydd. Ceir pecyn adnoddau i'w ddefnyddio cyn neu ar ôl yr ymweliad.

Archifau Gorllewin Morgannwg

Gweithdy CA2: FICTORIAID CYFOETHOG A THLAWD

2 awr

Cymharu Fictoriaid cyfoethog a thlawd, gan ganolbwyntio ar slym yn Abertawe neu Gastell-nedd a Pharc Margam (cartref y teulu Talbot). Bydd disgyblion yn defnyddio'r ffynonellau canlynol i wneud cymariaethau rhwng bywydau Fictoriaid cyfoethog a thlawd: mapiau, cynlluniau, cyfrifiadau, ffotograffau o bobl a chartrefi a phapurau newydd.

Mae'r pwnc hwn yn canolbwyntio ar nodweddion bywyd dyddiol yn ystod y cyfnod Fictoraidd. Y cwestiynau allweddol yw:

- Sut roedd bywyd i bobl gyfoethog a thlawd yn ystod y cyfnod Fictoraidd? Caiff dysgwyr y cyfle i drafod tai a chartrefi, dillad, amodau byw a swyddi.
- Sut mae bywydau dyddiol pobl yn y cyfnod Fictoraidd wedi'u cynrychioli a'u dehongli a pham? Caiff dysgwyr y cyfle i edrych ar amrywiaeth o gofnodion a thrafod sut mae'r cyfoethog a'r tlawd wedi'u cynrychioli.

Archifau Gorllewin Morgannwg

Gweithdy CA2: BYWYDAU YN YR OES DUDURAIDD

2 awr

Bydd grwpiau'n cael y cyfle i astudio dogfennau Tuduraidd gwreiddiol, gan gynnwys ewyllysiau ac indenturau prentisiaethau i roi cipolwg ar fywydau pobl oedd yn byw ac yn gweithio yn ystod yr oes Duduraidd. Bydd disgyblion yn cael cyfle i ddarganfod pa eiddo oedd gan bobl, yn ogystal ag ystyried y da a'r drwg am fod yn brentis yn ystod teyrnasiad Harri'r Wythfed (Arglwydd Sugar, gwylia di!) Bydd y sesiwn yn dod i ben gyda disgyblion yn creu eu hindenturau prentisiaeth a'u seliau eu hunain.

Mae'r pwnc hwn yn canolbwyntio ar nodweddion bywyd dyddiol yn ystod yr oes Duduraidd.

Y cwestiynau allweddol yw:

- Sut roedd bywyd i bobl oedd yn byw yn ystod yr oes Duduraidd? Caiff dysgwyr y cyfle i drafod tai a chartrefi a swyddi.
- Sut mae bywydau pob dydd pobl yn yr oes Duduraidd wedi cael eu cynrychioli a'u dehongli a pham? Caiff dysgwyr y cyfle i edrych ar amrywiaeth o gofnodion a thrafod sut mae pobl yn ystod yr oes Duduraidd wedi'u cynrychioli.
- Beth ydych chi'n ei wybod am fywyd yn yr oes Duduraidd; sut rydych yn gwybod hyn a sut gallwch gael gwybod mwy?

Archifau Gorllewin Morgannwg Gweithdy CA2: Y BLITZ TAIR NOSON

2 awr

Gwahoddir disgyblion i gamu'n ôl mewn amser ac ymweld â'n Hystafell Gweithrediadau Rhyfel ffug. Gan ddefnyddio cynllun Luftwaffe o Abertawe, Iluniau awyrol, cofnodion faciwîs, dyddiaduron yr ARP a'r Gwarchodlu Cartref; bydd disgyblion yn helpu i greu cynllun dianc strategol a sefydlu amddiffynfeydd ar hyd Bae Abertawe.

Nesaf, byddwn yn cael ein cludo i noson olaf y Blitz Tair Noson; bydd disgyblion yn defnyddio cofnodion y Gwasanaeth Tân Cynorthwyol a rhestr o gyrchoedd awyr i blotio'r prif fannau yr effeithiodd y blitz arnynt, yn ogystal â phenderfynu lle i anfon y criwiau tân, y Gwarchodlu Cartref a'r anafedigion.

Yn olaf, gan ddefnyddio ffotograffau o Abertawe wedi'r blitz i ddangos dinistr y dref, rhestr o'r clwyfedigion a'r preswylwyr marw, bydd disgyblion yn penderfynu sut mae adnabod yr anafedigion a'r meirw a lle i'w claddu.

Ffocws y pwnc hwn yw nodweddion bywyd pob dydd yn ystod y Blitz Tair Noson. Y cwestiynau allweddol yw:

- Beth ydych yn ei wybod am fywyd yn ystod y Blitz Tair Noson; sut rydych yn gwybod hyn a sut gallwch gael gwybod mwy?
- Sut oedd bywyd i ddynion, i fenywod ac i blant yn ystod y Blitz Tair Noson?
- A oedd newidiadau sylweddol i fywydau pobl yn y cyfnod, pam?
- Sut mae bywydau pob dydd pobl yn ystod y Blitz Tair Noson wedi'u cynrychioli a'u dehongli a pham?

Cyfnod Allweddol 3

Canolfan Dylan Thomas Ymweliadau Tywys CA3

45 mun – 1 awr

Mae ein hymweliadau tywys CA3 yn gyfle gwerthfawr i ddisgyblion gael eu hysbrydoli gan un o'r awduron mwyaf dylanwadol a mawr ei barch yng Nghymru. Bydd un o'r tîm wrth law i'ch croesawu i'r ganolfan ac yn eich tywys ar hyd llinell amser bywyd a gwaith Dylan. Bydd cyfle gan y disgyblion i gwblhau llwybr, defnyddio pethau rhyngweithiol i ddarganfod mwy am ddull ysgrifennu Dylan, a chreu eu cerddi eu hunain gan ddefnyddio geiriau Dylan ar ein bwrdd barddoniaeth magnetig.

Canolfan Dylan Thomas Gweithdai CA3

1 awr – 1 awr 30 mun

Cysylltwch â ni am fanylion pellach pob gweithdy.

- Geiriau Dylan: Hollti ac aildrefnu cerddi
- Barddoniaeth Cuddio Geiriau

Oriel Gelf Glynn Vivian
Gweithdai CA3
2.5 awr

Ar gyfer ysgolion uwchradd a cholegau AB, gallwn gynnig profiad unigryw i gyd-fynd â'r thema neu'r pwnc o'ch dewis, bydd ein tîm dysgu ar gael am drafodaeth er mwyn creu profiad unigryw ar gyfer eich dosbarth. E-bostiwch y tîm yn awr i drafod eich anghenion.

Amgueddfa Abertawe
Gall gweithdai CA2 gael eu haddasu ar gyfer grwpiau hÿn

Cyfnod Allweddol 4

Canolfan Dylan Thomas - Gweithdai gydag Awduron Proffesiynol

Yn ogystal â'r rhaglen uchod, rydym yn cynnig gweithdai ysgrifennu creadigol unigol gydag awdur proffesiynol o £200 y sesiwn. Gallwn gynorthwyo eich ysgol wrth gyflwyno cais am arian, rydym yn argymhell cynllun ariannu Awduron ar Daith Llenyddiaeth Cymru <http://www.literaturewales.org/funding-for-events/>

7. CEFNOGAETH ARIANNU

Angen help i dalu am gost eich ymweliad?

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n darparu cronfa '**Ewch i Weld**' ar gyfer ysgolion sy'n galluogi ysgolion i gyflwyno cais am hyd £1,000 i dalu am hyd at 90% o gost profiad celfyddydol yng Nghymru. Gall y costau gynnwys cludiant, gweithdai a thocynnau.

Gallwch gyflwyno cais ar unrhyw adeg, ond bydd rhaid gwneud hynny **o leiaf 6 wythnos** cyn y digwyddiad rydych am fynd iddo.

Grantiau Ewch i Weld

Gallwn eich helpu i gael grantiau 'Ewch i Weld' gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ariannu eich ymweliad. Cysylltwch â'r lleoliad priodol os oes angen help arnoch i ysgrifennu am eich ymweliad 4Site cynlluniedig.

I gael mwy o wybodaeth ac i gyflwyno cais, ewch i wefan Cyngor Celfyddydau Cymru:

<http://www.arts.wales/celf-yng-nghymru/dysgu-creadigol/rhaglen-y-celfyddydau-ac-addysg-cymru-gyfan/profir-celfyddydau/ewch-i-weld>

Beth am gyfuno eich gwibdaith ag ymweliad â dau neu fwy o'n lleoliadau?

Byddwn yn falch o gynnig amserlen benodol ar draws y gwasanaeth, rhowch wybod am yr hyn a ddymunwch.

Arian Awduron ar Daith

Mae Llenyddiaeth Cymru'n cynnig cefnogaeth ariannol gwerth hyd at 50% tuag at ffioedd awduron proffesiynol gan gynnwys cyfnodau estynedig o waith gan un neu ddau awdur mewn un lleoliad neu ar un prosiect sengl, yn ogystal ag ymweliadau unigryw a mynd i ddigwyddiadau llenyddiaeth.

I gael mwy o wybodaeth ac i gyflwyno cais, ewch i wefan Cyngor Celfyddydau Cymru:

<http://www.llenyddiaethcymru.org/nawdd-ar-gyfer-digwyddiadau/>



<p>Canolfan Dylan Thomas <u>Jo.Furber@swansea.gov.uk</u></p> <p><u>01792 463980</u></p>	<p>Oriel Gelf Glynn Vivian <u>Elissa.Evans@abertawe.gov.uk</u></p> <p><u>01792 516900</u></p>
<p>Amgueddfa Abertawe <u>Phil.Treseder@abertawe.gov.uk</u></p> <p>01792 653763</p>	<p>Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg <u>Katie.Millien@abertawe.gov.uk</u></p> <p>01792 636589</p>